Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd
Gwraidd y Mater

Camfanteisio ar Blant a Bregusrwydd

Pencadlys Heddlu De Cymru

22 Chwefror 2023

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil
Lee Jones (LJ) – Cadeirydd	Prif Weithredwr
Charlotte Amoss (CA)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lisa Morgan (LM)	Swyddog Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Tamara Lafferty (TL)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Paula Hardy (PH)	Arweinydd Strategol ar gyfer Bregusrwydd a Dioddefwyr
Naomi Evans (NE)	Swyddog Polisi ar gyfer Bregusrwydd a Dioddefwyr
Jayne Woodward (JW)	Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
Gemma Woolfe (GW)	Arweinydd Strategol ar gyfer Diogelwch Cymunedol ac Atal Trais
Emma Neale (EN)	Swyddog Polisi ar gyfer Cyfiawnder Troseddol
Heddlu De Cymru	
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol David Thorne (DT)	Portffolio Troseddau Arbenigol
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Joanna Maal (JM)	Pennaeth y Portffolio Plismona Tiriogaethol
Caroline Smart (CS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu

.	Eitem ar yr agenda	Cynnwys
1.	**Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**	1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau. 1.2 Gwnaeth LJ longyfarch JM ar gael ei phenodi'n Brif Gwnstabl Cynorthwyol yn ddiweddar.
2.	**Gwraidd y Mater Tachwedd 2022** • **Cofnodion y cyfarfod blaenorol** • **Adroddiad argymhellion**	2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod at Wraidd y Mater blaenorol yn gofnod gwir. Cadarnhaodd CW y bydd yn rhoi diweddariad ar y camau gweithredu cyn y cyfarfod Uwchgyfeirio ym mis Mawrth 2023. **CAM GWEITHREDU.** Cadarnhaodd LJ fod sgyrsiau yn mynd rhagddynt rhyngddo ef a Mark Stevenson er mwyn nodi asiantaethau a all helpu gyda gwaith ar fesurau canlyniadau ac effeithiau a sut y gellir defnyddio hyn mewn gwaith sy'n ymwneud ag atal. 2.2 Cyfeiriodd LJ at Gasgliadau'r Adolygiad at Wraidd y Mater a'r Adroddiad Argymhellion. Cadarnhaodd LJ fod Mark Stevenson eisoes wedi cytuno ar gynnwys yr adroddiad. Ni chododd y rhai a oedd yn bresennol o'r Heddlu unrhyw wrthwynebiadau i'r adroddiad. Nododd LJ fod yr adroddiad hwn yn bwysig a'i fod yn ymwneud â chynrychiolaeth pobl Dduon ac Asiaidd yn yr Heddlu. Bydd y gwaith hwn yn parhau. Cadarnhaodd LJ y rhoddir sylw i'r adroddiad hwn yn y cyfarfod Uwchgyfeirio a gynhelir ym mis Mawrth 2023 a'i fod yn debygol o gael ei ailystyried fel pwnc At Wraidd y Mater. **CAM GWEITHREDU.** At hynny, cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio i gyfarfod diwethaf Bwrdd Strategol y Comisiynydd. Cadarnhaodd LJ y bydd yn parhau i gyflwyno adroddiadau gan y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd i Fwrdd Strategol y Comisiynydd er mwyn dangos bod tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi goruchwylio rhai o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. **CAM GWEITHREDU**
3.	**Adroddiad Sicrwydd Busnes: Camfanteisio ar Blant a Bregusrwydd – Canfyddiadau Ymchwil.** **Trosolwg o Sefyllfa bresennol Heddlu De Cymru o ran y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn Argymhellion Arolygiad PEEL ar gyfer Camfanteisio ar Blant a Bregusrwydd.**	3.1 Rhoddodd LJ amlinelliad o gefndir y cyfarfod hwn, sy'n adolygiad o bwnc Camfanteisio ar Blant a Bregusrwydd. Nododd LJ fod Arolygiad PEEL wedi'i gynnal yn ddiweddar gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), a arweiniodd at roi gradd 'angen gwella ym maes Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed' i Heddlu De Cymru. Rhoddwyd rhai argymhellion i'r Heddlu er mwyn gwella'r maes hwn yn gyffredinol o fewn 6 mis, yr oedd 2 ohonynt yn ymwneud yn benodol â Phlant Coll a Chamfanteisio ar Blant. Atgoffodd LJ y grŵp fod y maes hwn yn gysylltiedig â Blaenoriaeth Allweddol 3 yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu o ran diogelu'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Cydnabu LJ fod hwn yn faes eang ond bydd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar yr hyn a arweiniodd at argymellion HMICFRS a'r ffordd y mae'r Heddlu wedi ymateb. 3.2 Diolchodd LJ i DCS Phil Sparrow am lunio adroddiad cynhwysfawr iawn mewn ymateb i gais dogfen gwmpasu tîm y Comisiynydd. Cynigiodd LJ, yn hytrach na bod DT yn rhoi'r cyflwyniad, y gallai aelodau'r Bwrdd ddefnyddio'r cyfarfod hwn fel cyfle i drafod adroddiadau'r Heddlu a'r Comisiynydd a gyflwynwyd yn fanylach er mwyn ystyried y maes hwn ymhellach. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau gan y Bwrdd.

		3.3 Estynnodd LJ wahoddiad i SG gyflwyno adroddiad tîm y Comisiynydd ar 'Gamfanteisio ar Blant a Bregusrwydd – Canfyddiadau Ymchwil'. Ailadroddodd SG sylwadau LJ mai diben y cyfarfod At Wraidd y Mater hwn oedd helpu tîm y Comisiynydd i ddeall beth arweiniodd at y radd a roddwyd i'r Heddlu gan Arolygiad PEEL HMICFRS, yr hyn y mae'r Heddlu wedi'i wneud er mwyn gweithredu ar yr argymhellion a beth yw'r camau nesaf er mwyn parhau i wneud gwelliannau yn y maes hwn. 3.4 Esboniodd SG mai diben yr ymchwil At Wraidd y Mater a wnaed gan dîm y Comisiynydd oedd dod â lleisiau'r partneriaid craffu allanol i'r fforwm hwn. Esboniodd SG fod tîm y Comisiynydd wedi ymgynghori ag aelodau Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PALG) yn eu cyfarfod ym mis Rhagfyr ar y pwnc At Wraidd y Mater ac wedi gofyn am eu barn. Cynhaliodd SJ gyfweliad hefyd â'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) sydd o dan gontract â'r Heddlu i ddarparu Cyfweliadau Dychwelyd Adref a gwasanaethau eiriolaeth i blant. Cynhaliwyd sesiwn Grŵp Ffocws ar wahân gyda phartneriaid allanol o Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu (PALG) a'u rhwydweithiau hefyd, yn ogystal â thrafodaeth â GW, sef Arweinydd Strategol y Comisiynydd ar gyfer Diogelwch Cymunedol ac Atal Trais. 3.5 Cadarnhaodd SG fod y sesiynau ymchwil wedi ceisio deall profiadau a safbwyntiau'r cyfranogwyr o ran ymateb yr Heddlu a'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau ar gyfer Camfanteisio ar Blant a Bregusrwydd. 3.6 Tynnodd SG sylw at yr adborth o'r cyfarfod ag aelodau PALG. Esboniodd SG fod y themâu o drafodaethau â phartneriaid PALG yn ymwneud â thorri'r cylch plant coll a chamfanteisio ar blant. Gofynnwyd am i bartneriaid ehangach gael eu cynnwys hefyd - er enghraifft, awgrymodd partner o sefydliad cam-drin domestig nad oedd gan ferched ifanc lawer o ffydd yn yr heddlu oherwydd profiadau blaenorol a bod i hyn olygiadau o ran Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Gofynnodd partneriaid PALG hefyd sut roedd yr Heddlu yn rhannu gwybodaeth â phartneriaid ehangach a sut roedd yn mynd i'r afael â phroblemau yn wneud â Llinellau Cyffuriau. Cydnabu SG y Prif Gwnstabl Cynorthwyol DT a diolch iddo am ei bresenoldeb a'i ymatebion yng nghyfarfod PALG ym mis Rhagfyr mewn perthynas â'r pwyntiau a godwyd 3.7. Tynnodd SG sylw at yr adborth o'r cyfweliad â NYAS Cymru. Esboniodd SG fod NYAS o'r farn bod y contract â'r Heddlu yn mynd yn dda, ei fod wedi cael profiad cadarnhaol ar y cyfan a bod cydberthnasau, cyfarfodydd a chyfathrebu â'r Heddlu yn dda. Mae NYAS yn credu ei fod yn cyflawni yn unol â chytundeb y contract a bod adrodd ar berfformiad yn fuddiol. Tynnodd sylw at rai meysydd sy'n destun pryder sy'n ymwneud yn bennaf â disgwyliadau'r Heddlu. Roedd NYAS o'r farn bod yr Heddlu yn rhoi cryn bwyslais ar nifer y Cyfweliadau Dychwelyd Adref a gynhelir ar draul ansawdd, gan gyfeirio at y gwaith paratoi a'r gwaith dilynol sydd angen ei wneud er mwyn cynnal Cyfweliadau Dychwelyd Adref. Roedd NYAS o'r farn na all roi'r hyblygrwydd sydd wedi'i ymgorffori yn y contract ar waith yn llawn er mwyn gwneud mwy o waith ymyrryd y mae'n credu ei fod yn hanfodol i dorri'r cylch. Un maes a weithiodd yn dda yw pan fydd Swyddogion yr Heddlu allan o iwnifform yn bresennol mewn Cyfweliadau Dychwelyd Adref gyda'r gweithiwr prosiect. Mae hyn yn helpu i feithrin perthynas â'r plant ac ennyn eu hymddiriedaeth. Awgrymodd hefyd y gallai cynnwys unrhyw raglenni hyfforddi y mae'r Heddlu yn eu darparu i swyddogion gael ei gysoni â'r hyfforddiant y mae NYAS yn ei ddarparu i'w Weithwyr Prosiect.

		3.8 Tynnodd SG sylw at yr adborth gan bartneriaid craffu ehangach. Holodd partneriaid ehangach ynghylch pecynnau gofal therapiwtig ac a yw'r Heddlu yn siarad â darparwyr eraill er mwyn nodi bylchau ar gyfer plant sydd wedi bod ar goll neu sydd wedi bod yn destun camfanteisio. Esboniodd SG fod partneriaid wedi holi ynghylch faint o wybodaeth sy'n cael ei rhannu ac i ba raddau y mae'r Heddlu yn ymgysylltu â chymunedau er mwyn eu helpu i adnabod arwyddion camfanteisio troseddol ar blant yn ogystal â rhoi sicrwydd iddynt mewn perthynas â rhoi gwybod am achosion o'r fath. At hynny, nododd partneriaid ehangach y gall ymchwiliadau'r heddlu sy'n ymwneud â phlant gymryd amser hir ac y gall plant gael eu gordroseddoli. Nododd SG hefyd fod trafodaeth wedi'i chynnal â thîm Partneriaethau Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd ac y byddai GM yn codi rhai o'r pwyntiau o'r papur gyda'r Bwrdd. 3.9 Diolchodd LJ i bartneriaid allanol am roi adborth yn y sesiynau cyfweld a Grŵp Ffocws. Gwahoddodd LJ y Prif Gwnstabl Cynorthwyol DT i wneud sylwadau ar yr adroddiad neu ei herio. Esboniodd DT fod y contract rhwng yr Heddlu a NYAS yn gymharol newydd a bod NYAS wedi bod yn brin o staff. Felly, nid yw'r nifer isel o Gyfweliadau Dychwelyd Adran sydd wedi'u cwblhau gan NYAS yn peri syndod. Cytunodd DT fod yr Heddlu wedi canolbwyntio ar nifer y Cyfweliadau Dychwelyd Adref a gwblhawyd ond nid ar draul ansawdd. Mae'r Heddlu o'r farn, os caiff mwy o Gyfweliadau Dychwelyd Adref eu cwblhau, y dylai hyn leihau'r angen am ymyriadau yn ddiweddarach. Esboniodd DT fod unrhyw broblemau gyda'r contract rhwng NYAS a'r Heddlu yn debygol o gael eu datrys yn fuan. 3.10 Cyfeiriodd DT at adroddiad tîm y Comisiynydd. Mewn perthynas â gordroseddoli plant, esboniodd DT fod disgwyl i'r Heddlu gyflwyno prosiect newydd lle y caiff nifer o Swyddogion yr Heddlu hyfforddiant ar fregusrwydd. Nododd DT nad sesiwn hyfforddi 'untro' fydd hon ac y caiff ei chynnal yn rheolaidd. Cadarnhaodd DT fod cryn dipyn o hyfforddiant bellach ar gael i Swyddogion yr Heddlu yn y maes hwn. 3.11 Cadarnhaodd DT nad yw'r Heddlu yn defnyddio'r radd 'Dim Risg Uniongyrchol Amlwg/Absennol' (NAIRA) mwyach ar gyfer pobl goll. Ers 16 Ionawr 2023, mae'r Heddlu wedi troi'n ôl at ddefnyddio'r system raddio risg 'isel, canolig, uchel' sy'n gweithio'n dda. Mae tîm mwy o faint bellach yn llywodraethu'r system hon. Cadarnhaodd DT, gyda'r system newydd, fod nifer y plant risg isel yn isel iawn. 3.12 Esboniodd CW fod yr Heddlu yn craffu ar y system newydd ac yn ei monitro bob wythnos. Cadarnhaodd CW fod unrhyw blant nad ydynt yn cael eu cofnodi gan y system newydd yn cael eu hasesu. Cadarnhaodd CW y caiff adolygiad ffurfiol o'r system ei gynnal ym mis Ebrill 2023. 3.13 Gofynnodd SG a yw'r broblem sy'n ymwneud â'r ffaith nad yw Control Works yn cysylltu â NICHE wedi'i datrys bellach er mwyn sicrhau bod yr holl asesiadau risg ar gyfer plant coll ar gael. Cadarnhaodd DT y bydd yr holl asesiadau risg bellach ar gael ar NICHE, nid Control Works. Gofynnodd SG a yw'r plant yr effeithiodd cyfnod categoreiddio risg NAIRA rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2023 arnynt, wedi'u hadolygu. Cadarnhaodd DT na fyddai hyn yn cael ei adolygu oherwydd canllawiau HMICFRS. Fodd bynnag, mae Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd wedi'i gyflwyno ar gyfer pob un o'r plant hynny.

		3.14 Cyfeiriodd CS at hyfforddiant sydd ar gael yn y maes hwn. Cadarnhaodd CS fod DCI Tracy Rankine bellach yn arwain maes Diogelu'r Cyhoedd a'i bod yn canolbwyntio ar blismona gweithredol. Gwahoddwyd unigolion arbenigol i roi hyfforddiant i Swyddogion yr Heddlu ar sut i ddefnyddio'r hyfforddiant yn ymarferol. Cadarnhaodd DT y bydd lleoliad un wythnos gyda staff Diogelu'r Cyhoedd fel rhan o'u hyfforddiant er mwyn sicrhau bod Swyddogion Heddlu newydd yn cael eu hamlygu i hyn. 3.15 Gofynnodd LJ sut mae meysydd sy'n destun pryder yn cael eu nodi a'u huwchgyfeirio. Esboniodd CW a CS y mesurau craffu a monitro sydd ar gael. Cadarnhaodd CW fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob wythnos gan Gadeiryddiaeth DT er mwyn monitro cynnydd y system newydd. Mae hyn wedyn yn bwydo i mewn i Fwrdd y Rhaglen Ddiogelu. Caiff meysydd sy'n destun pryder eu huwchgyfeirio at y Prif Gwnstabl hefyd. Mae sawl cyfarfod a gweithgor Llywodraethu. Bydd yr Heddlu yn dechrau arfarniad tri mis o'r system ym mis Ebrill 2023 a bydd HMICFRS yn dod yn ôl i asesu'r cynnydd sydd wedi'i wneud. Esboniodd CW fod Grŵp Llywio sy'n edrych ar y maes hwn o safbwynt tactegol ac sydd â'r nod o feithrin dealltwriaeth gan bawb sy'n cymryd rhan yn y broses megis NYAS, tîm y Comisiynydd a'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Unedau Rheoli Sylfaenol yn edrych ar hyn o lefel leol, yn arbennig mewn adroddiadau am bobl goll gan Gartrefi Gofal. 3.16 Diolchodd JM i SG am lunio'r adroddiad a'r adborth gan y Grŵp Ffocws. Holodd JM am y sylw yn yr adroddiad gan bartner ehangach fod bachgen dwy oed wedi'i farcio'n droseddol. Cadarnhaodd CA fod hyn yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd fel rhan o ohebiaeth a gafwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd gan yr asiantaeth bartner ynghylch marcwyr troseddol a osodir ar blant a chaiff y mater hwn ei drafod â'r Heddlu yn fanylach y tu allan i'r cyfarfod hwn. **CAM GWEITHREDU.** 3.17 Cyfeiriodd DT at y contract â NYAS. Esboniodd DT ei fod yn credu fod sgyrsiau yn mynd rhagddynt rhwng yr Heddlu a NYAS ynghylch y contract ac unrhyw broblemau y mae NYAS yn eu hwynebu. Cadarnhaodd DT y bydd yn holi i weld a yw'r sgyrsiau hyn yn mynd rhagddynt ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i dîm y Comisiynydd, **CAM GWEITHREDU.** 3.18 Esboniodd SG fod y ffaith nad yw'r Heddlu yn gwneud digon o waith partneriaeth yn thema gyffredin roedd partneriaid yn ei rhannu yn y Grŵp Ffocws. Fodd bynnag, nododd SG fod adroddiad DCS Phil Sparrow a gyflwynwyd fel rhan o'r adolygiad At Wraidd y Mater yn awgrymu ei fod yn gwneud digon o waith partneriaeth, gyda strwythurau a systemau i ategu hyn. Gofynnodd SG sut mae hyn yn cael ei gyfleu a ble mae'r diffyg cysylltiad rhwng gwaith partneriaeth yr Heddlu ac ymwybyddiaeth ehangach asiantaethau partner. Cytunodd DT fod llawer o waith partneriaeth ac ymarfer amlasiantaethol o ran diogelu plant ond cydnabu nad oes unrhyw sylw wedi'i roi i farchnata'r gwaith partneriaeth ers arolygiad HMICFRS. Awgrymodd DT fod hyn yn rhywbeth y gallai'r Heddlu weithio arno. 3.19 Esboniodd GW fod llawer o wasanaethau sy'n delio â phlant sy'n wynebu risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt, a ariennir gan y grant y mae'r Swyddfa Gartref yn ei roi i'r Uned Lleihau Trais. Gall tîm y Comisiynydd a'r Heddlu gydweithio er mwyn helpu NYAS i gyfeirio at y gwasanaethau sydd ar gael y mae angen iddynt weithio o fewn y dulliau diogelu cyd-destunol. At hynny, mae cyfle i Reolwyr Diogelwch Cymunedol yr

		Heddlu a'r Unedau Rheoli Sylfaenol chwarae rôl o ran gwneud y cysylltiadau hynny â pha achos sy'n dod o dan ba bartneriaeth. 3.20 Cytunodd JM â GW ac esboniodd, unwaith y bydd y cyfarfod Partneriaeth a Chomisiynu ar waith, fod potensial i ailfrandio hyn yn oruchwyliaeth o ddiogelwch cymunedol a nodi a chysylltu gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan yr Heddlu a thîm y Comisiynydd. 3.21 Esboniodd JW iddi ddod i'r cyfarfod hwn fel rhywun nad yw'n cymryd rhan mewn partneriaethau gan nodi yr ymddengys fod llawer yn digwydd ond ei bod yn anodd delweddu'r strwythur sefydliadol a gofynnodd a yw hyn, felly, yr un peth ar gyfer rhai o Swyddogion yr Heddlu. 3.22 Cadarnhaodd DT fod tîm Camfanteisio yn yr Heddlu sydd ar wahân i'r tîm Unigolion Coll. Mae'r tîm yn edrych ar nifer bach o feysydd gan gynnwys Camfanteisio Troseddol ar Blant a Chaethwasiaeth Fodern. Gofynnodd JW pam mae Tîm Ymgysylltu ar gyfer Camfanteisio yng Nghaerdydd a'r Fro ond nid yn yr Unedau Rheoli Sylfaenol eraill. Cadarnhaodd DT i'r tîm gael ei ffurfio ar fenter Caerdydd a'r Fro ei hun a'i fod wedi'i integreiddio mewn tîm i'r Heddlu cyfan ers hynny. Mae bellach yn un tîm i'r Heddlu cyfan a bydd yn gweithio gyda phob Uned Reoli Sylfaenol. 3.23 Cyfeiriodd SG at adroddiad DCS Phil Sparrow a'r adran lle mae'n nodi bod pryder wedi'i leisio ynghylch Uned Reoli Sylfaenol Morgannwg Ganol dros y pedair blynedd diwethaf am fod yr ardal honno yn cael y nifer mwyaf o adroddiadau am blant coll. Esboniodd SG, ar sail y gwaith ymchwil a wnaed, iddi gael ei nodi bod NYAS wedi bod mewn proses hir o recriwtio Gweithiwr Prosiect i ardal Morgannwg Ganol ar adeg y cyfweliad a'u bod ar ddeall o'r cyfarfod â GM fod trafodaethau yn mynd rhagddynt i ddatblygu dull diogelu cyd-destunol ar gyfer yr ardal honno hefyd. Gofynnodd SG a yw'r Heddlu wedi ystyried bod hwn yn ffactor sydd wedi cyfrannu at y nifer mawr o adroddiadau am blant coll yn yr ardal hon. 3.24 Esboniodd CW y rhesymau posibl dros y nifer mawr o adroddiadau am blant coll ym Morgannwg Ganol er na allai fod yn sicr heb ymchwilio i'r mater. Esboniodd CW fod nifer mawr o gartrefi lle mae plant yn cael eu lletya yn yr ardal hon. Esboniodd PH, yn hanesyddol, fod problem wedi bod gyda staff sy'n gofalu am blant yn y cartrefi hyn yn cysylltu â'r heddlu ar unwaith os na fydd plentyn wedi dychwelyd i'r cartref yn brydlon. 3.25 Esboniodd CS fod yr Heddlu yn cael sgyrsiau ynghylch dull datrys problemau ac yn ceisio ymgysylltu â chartrefi sy'n lletya plant er mwyn pwysleisio eu cyfrifoldeb am y plentyn fel rhiant a chymryd camau i ddod o hyd i blant sydd ar goll. Nododd CS fod trafodaethau yn mynd rhagddynt â'r Heddlu, partneriaid ehangach a staff ynghylch y mater hwn. 3.26 Gofynnodd SG a ellir ffurfioli'r sgyrsiau hyn rhwng yr Heddlu a chartrefi sy'n lletya plant yn Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Cred JM fod memorandwm o'r fath yn bodoli eisoes a bod adnodd tebyg yn cael ei ddefnyddio yn Ysbyty Treforys ond y bydd yn cadarnhau bod hyn yn digwydd yn lleol ym Morgannwg Ganol. **CAM GWEITHREDU.**

		3.23 Esboniodd CA fod achosion cenedlaethol wedi cael sylw yn y cyfryngau ynghylch plant ar eu pen eu hunain, Ceiswyr Lloches, yn mynd ar goll o westai'r Swyddfa Gartref. Gofynnodd CA a yw hyn yn cael ei fonitro yn yr Heddlu yn ein rhanbarth. Cadarnhaodd JM fod systemau ar waith i fonitro hyn a bod yr Heddlu yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw achosion yn dod i'r meddwl ac mae sylw bellach wedi'i dynnu at y mater hwn er mwyn i JM ei ystyried a'i fonitro ymhellach. **CAM GWEITHREDU** 3.24 Nododd LJ ei bod yn amlwg o'r cyfarfod hwn fod angen i sgyrsiau gael eu cynnal rhwng tîm y Comisiynydd a'r Heddlu er mwyn gwella gwaith partneriaeth. Nododd LJ y gall trefniadau cydweithio fwydo i mewn i'r Bwrdd Partneriaeth a Chomisiynu. 3.25 Eglurodd GW fod Abertawe, Castell-nedd, Port Talbot a Chaerdydd wedi cael adnoddau dynodedig o gyllid grant er mwyn sefydlu modelau diogelu cyd-destunol. Esboniodd GW ei bod yn ystyried sut i ddefnyddio cyllid o'r Ddyletswydd Trais Difrifol er mwyn dwyn ynghyd y partneriaid a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer Morgannwg Ganol. Cadarnhaodd GW ei bod yn gweithio i ddatblygu hyn ac y bydd hyn yn helpu i gysylltu â'r trefniadau ar gyfer diogelwch cymunedol. 3.26 Nododd LJ fod hyn wedi bod yn rhwystr gyda sawl sefydliad a phartner. Pwysleisiodd LJ mai adborth a gafwyd gan bartneriaid yn adroddiad SG yw bod PCSOs yn effeithiol ond bod diffyg gwybodaeth. Mae hyn yn faes y gallai fod yn werth ymchwilio ymhellach iddo. Esboniodd JM fod y model plismona yn y gymdogaeth wedi'i ailstrwythuro'n ddiweddar a bod 46 o PCSOs ychwanegol wedi'u recriwtio a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r PCSOs hyn yn cael rolau penodedig ac maent yn arbenigo mewn maes penodol. 3.27 Esboniodd DT fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal Adolygiad Cenedlaethol o weithdrefnau, yn enwedig mewn perthynas â chanolfannau diogelu amlasiaentaethol (MASH). Bwriedir i'r gwaith hwn nodi'r ffordd orau o rannu gwybodaeth â phartneriaid er mwyn i'r dull gweithredu hwn fod yn un safonedig. Mae hyn yn rhywbeth y dylid ei ailystyried gyda'r Heddlu unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau. **CAM GWEITHREDU.** 3.28 Gofynnodd SG i JM a yw'r Heddlu wedi ystyried codi ymwybyddiaeth y gymuned o arwyddion camfanteisio troseddol ar blant, er enghraifft gydag ysgolion, siopwyr, busnesau a rhieni – fel y nodir gan bartneriaid yn yr adroddiad hwn. Esboniodd JM feysydd lle mae'r Heddlu yn ymgysylltu â phobl leol ac Ysgolion. Cadarnhaodd JM fod Porth Ymgysylltu ar waith ac mai'r gobaith yw y bydd y tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn tynnu sylw at Ymgyrchoedd Cenedlaethol er mwyn i'r Heddlu allu cynllunio gweithgarwch ymgysylltu. 3.29 Nododd LJ fod newid sylweddol wedi bod yn y maes hwn ac y dylid ei ailystyried yng nghyfarfodydd Uwchgyfeirio'r Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd yn y dyfodol er mwyn adolygu'r newidiadau hyn. **CAM GWEITHREDU.** Mae angen trafodaeth ehangach hefyd ynghylch data a rhannu data rhwng yr Heddlu a thîm y Comisiynydd. **CAM GWEITHREDU.** Bydd angen ailystyried hyfforddiant a rhannu gwybodaeth yn y cyfarfod Uwchgyfeirio. Bydd LJ yn ailystyried y strwythur sefydliadol mewn cyfarfod Uwchgyfeirio hefyd. **CAM GWEITHREDU.**

4.	**Diweddariad am HMICFRS**	4.1. Cadarnhaodd CW y bydd HMICFRS yn ymweld â'r Heddlu rhwng mis Ebrill 2023 tan fis Tachwedd 2023. Mae a wnelo'r gweithgarwch rhwng mis Ebrill a mis Hydref â chasglu gwybodaeth a deall beth mae'r Heddlu wedi'i wneud er mwyn delio â'r argymhellion o Arolygiad PEEL 2022. 4.2 Cadarnhaodd CW y bydd HMICFRS yn cwblhau ei gwaith maes ym mis Tachwedd 2023 ac yn ystyried a oes unrhyw feysydd newydd sy'n destun pryder yn fanylach. Ar wahanol adegau ym mis Ebrill, bydd HMICFRS yn cwblhau Asesiad o Wasanaethau i Ddioddefwyr. 4.3 Esboniodd CS y bydd HMICFRS yn cynnal arolwg staff eleni. Cadarnhaodd y bydd CW yn rhannu dyddiadau ar gyfer yr arolwg â thîm y Comisiynydd. **CAM GWEITHREDU.**
5.	**Casgliadau a Materion i'w Huwchgyfeirio**	5.1 Esboniodd LJ y bydd yr Heddlu a thîm y Comisiynydd yn edrych ar y camau gweithredu a'r nodiadau ac yn cytuno ar y rhai y mae angen eu huwchgyfeirio i Fwrdd Strategol y Comisiynydd. **CAM GWEITHREDU.** 5.2 Cadarnhaodd LJ y caiff crynodeb o'r cyfarfod hwn ei roi i Fwrdd Strategol y Comisiynydd . **CAM GWEITHREDU**
6.	**Unrhyw Fater Arall**	6.1 Esboniodd LJ mai un o'r Camau Gweithredu gan Banel yr Heddlu a Throseddu oedd trafod uniondeb yr heddlu â DCC Rachel Bacon ac y caiff y mater hwn ei adolygu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd At Wraidd y Mater. Felly, mae angen canolbwyntio ar y maes hwn. **CAM GWEITHREDU** Daeth y cyfarfod i ben.

Tabl Camau Gweithredu

Nifer	**Cam Gweithredu**	**Perchennog**
1.	CW i roi diweddariad ar y Camau Gweithredu cyn y cyfarfod Uwchgyfeirio ym mis Mawrth 2023.	CW
2.	Adroddiad ar Gasgliadau At Wraidd y Mater i'w drafod yn y cyfarfod Uwchgyfeirio ym mis Mawrth 2023 a chyfarfod At Wraidd y Mater yn y dyfodol.	Tîm y Comisiynydd.
3	Cadarnhaodd LJ y bydd yn parhau i gyflwyno adroddiadau gan y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd i Fwrdd Strategol y Comisiynydd er mwyn dangos bod tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi goruchwylio rhai o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.	LJ/Tîm y Comisiynydd
4.	CA a JM i drafod marcwyr troseddol ar blant.	CA a JM

5.	JM i gadarnhau a oes cofnod ffurfiol o ddealltwriaeth rhwng yr Heddlu a Chartrefi Gofal ynghylch eu cyfrifoldeb am blant.	JM
6.	JM i ystyried y mater sy'n ymwneud â phlant ar eu pen eu hunain sy'n mynd ar goll o westai a bennwyd gan y Swyddfa Gartref ar gyfer ceiswyr lloches.	JM
7.	Yr Heddlu a thîm y Comisiynydd i fwrw golwg dros Adolygiad Cenedlaethol Llywodraeth Cymru o weithdrefnau rhannu gwybodaeth unwaith y bydd wedi'i gwblhau.	Yr Heddlu a thîm y Comisiynydd
8.	Ymateb yr Heddlu i Adroddiad HMICFRS mewn perthynas â Chamfanteisio Troseddol ar Blant i'w ailystyried mewn cyfarfod Uwchgyfeirio.	Tîm y Comisiynydd
9.	Trafodaethau ehangach i'w cynnal rhwng tîm y Comisiynydd a'r Heddlu ynghylch rhannu data a gwybodaeth.	Tîm y Comisiynydd.
10.	Rhannu Gwybodaeth a Strwythur Sefydliadol ar gyfer Partneriaid i'w hailystyried mewn cyfarfod Uwchgyfeirio.	Tîm y Comisiynydd.
11.	CW i rannu dyddiadau ar gyfer Arolwg Staff HMICFRS	CW
12.	Ystyried Uniondeb yr Heddlu yn fanylach.	Tîm y Comisiynydd